CHARTERED SOCIETY OF PHYSIOTHERAPY
CYMDEITHAS SIARTREDIG FFISIOTHERAPI

DEWIS FFISIO
ar gyfer gofal sylfaenol

# Llywio gofal

## meini prawf ar gyfer trefnu apwyntiadau gyda Ffisiotherapyddion Cyswllt Cyntaf

Rôl Ffisiotherapyddion Cyswllt Cyntaf (FCP) mewn Gofal Sylfaenol yw asesu cleifion gyda phoen meinwe meddal, cyhyrau a chymalau a phenderfynu ar y llwybr rheoli mwyaf priodol. Mae Ffisiotherapyddion Cyswllt Cyntaf yn ffisiotherapyddion gydag arbenigedd mewn asesu a rheoli cyflyrau Cyhyrysgerbydol (MSI). Gallant hefyd gael eu galw yn Ffisiotherapyddion Uwch Ymarfer neu Ymarferwyr Cyhyrysgerbydol.

Os ydych yn ansicr lle i gyfeirio claf, trafodwch gyda'ch Ffisiotherapydd Cyswllt Cyntaf os gwelwch yn dda a byddant yn hapus i'ch cynghori.

### Meini Prawf Cynnwys

- Pob anaf meinwe meddal, ysigiad, straen neu anaf chwaraeon
- Arthritis - unrhyw gymal
- Problemau posibl gyda chyhyrau, gewynnau, tendonau neu asgwrn e.e. ysigiad pen-elin, syndrom twnnel carpal, ysigiad migwrn/ffêr
- Poen cefn yn cynnwys gwaelod y cefn a chanol y cefn a phoen gwddf
- Poen cysylltiedig â'r asgwrn cefn yn y breichiau neu goesau, yn cynnwys symptomau nerfau e.e. pinnau bach neu ddiffyg teimlad
- Newidiadau i gerddediad
- Llawdriniaeth ôl-orthopaedig (Gall wahaniaethu rhwng ardaloedd)

### Meini Prawf Hepgor

- Teimlo'n wael iawn
- Plant dan 16
- Rheolaeth feddygol cyflyrau gwynegol
- Iechyd menywod, problemau cyn-geni ac ôl-geni
- Cleifion sy'n gaeth i'r cartref
- Adolygu meddyginiaeth
- Cyflyrau niwrolegol ac anadlol
- Cur pen/Pen tost
- Argyfyngau dwys iechyd meddwl
- Cleifion na ddymunant weld Ffisiotherapydd Cyswllt Cyntaf

CHARTERED SOCIETY OF PHYSIOTHERAPY
CYMDEITHAS SIARTREDIG FFISIOTHERAPI

# Taith y claf

## Oes gennych chi broblem sy'n effeithio ar eich gwddf, cefn, esgyrn, cymalau neu gyhyrau?

**OES** ↓

**NA** → Trefnu apwyntiad gyda ***MEDDYG TEULU***

## Ydych chi'n teimlo'n wael ar hyn o bryd?

**NA** ↓

**YDW** → Trefnu apwyntiad gyda ***MEDDYG TEULU***

## Fyddech chi'n hapus i weld ffisiotherapydd yn lle'r meddyg teulu?

**BYDDWN** ← Trefnu apwyntiad gyda Meddyg ***MCP***

**NA** → Trefnu apwyntiad gyda ***MEDDYG TEULU***

001668 SPED 11/2019 500